YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
Pennaeth/Head:
Mr Matthew H T Evans
029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

29 Chwefror 2024

Annwyl Riant / Warcheidwad,

**Eisteddfod yr Ysgol**
Cynhelir Eisteddfod Dydd Gŵyl Dewi i holl fyfyrwyr Bl 7, 8, 9, 12 a 13 yn y Ganolfan Chwaraeon Genedlaethol yng Ngerddi Sophia **yfory o 8:30am tan 2pm**. Bydd y bysiau ysgol arferol yn rhedeg a byddant yn ymweld â Glantaf yn gyntaf yn y bore (ar gyfer Blynyddoedd 10 ac 11) cyn gwneud eu ffordd i Erddi Sophia gyda gweddill y disgyblion. Bydd hyn hefyd yn wir am y daith adref. Gofynnwn yn garedig i ddisgyblion sy'n byw yn lleol i Lantaf (a Gerddi Sophia) wneud eu ffordd eu hunain i'r Ganolfan ac yn ôl adref oni bai am y rhai sydd eisoes wedi archebu lle ar fws i'w cludo. Mae caniatad i ddisgyblion wisgo crys lliw eu llys gyda'u gwisg ysgol arferol ac mae angen iddynt gofio dod â bocs bwyd gyda nhw. **Disgwylir i blant blynyddoedd 10 ac 11 fynychu'r ysgol fel yr arfer gan y byddant yn dilyn gwersi sydd wedi'u hanelu'n benodol ar gyfer paratoi ar gyfer yr haf.**

**Taith Liddington**
Dymunwn yn dda i holl ddisgyblion blynyddoedd 7 ac 8 sy'n mynd i Liddington dros y penwythnos. Bydd angen i bawb ddod â phopeth gyda nhw i Erddi Soffia **yfory**. Bydd y bysiau'n gadael am 2:30pm.

**Ffug-brofion Blwyddyn 10**
Cynhelir ffug-arholiadau Bl 10 **4 - 7 Mawrth** yn y Neuadd Chwaraeon. Bydd yr arholiadau'n dechrau am 8.45am ac 11.10am yn brydlon. **Bydd disgwyl i ddisgyblion ddychwelyd i wersi arferol yn dilyn pob arholiad a mynychu gwers 5 bob dydd.** Mae gwybodaeth am restrau adolygu wedi'u rhannu gyda'r disgyblion yn y gwersi ac ar Classroom.

| Dyddiad | 8.45am | 11.10am |
|---|---|---|
| 4/3/24 | Ffiseg + Gwyddoniaeth Gymhwysol | Llenyddiaeth Saesneg |
| 5/3/24 | Hanes | Addysg Grefyddol (Cwrs Llawn) |
| 6/3/24 | Bioleg | Llenyddiaeth Gymraeg |
| 7/3/24 | Cemeg | Iechyd a Gofal |



Pencampwyr Cwpan 7s Coleg Crist Aberhonddu

**Canlyniadau Arholiadau Ionawr ac Adroddiadau Blwyddyn 11**
Bydd y disgyblion hynny a safodd fodylau Llenyddiaeth Gymraeg a Saesneg ym mis Ionawr yn derbyn eu canlyniad amser egwyl **dydd Iau, 7 Mawrth**. Hefyd, bydd pob disgybl Bl11 yn derbyn ei adroddiad cyn diwedd yr wythnos nesaf. Byddant yn cael eu dosbarthu gan yr athro yn ystod cyfnod cofrestru.

**Opsiynau Blwyddyn 9**
Cynhelir Noson Opsiynau i rieni a disgyblion Bl9 yn rhithiol (Teams) ar **4 Mawrth** ble byddwn yn trafod y dewisiadau sydd ar gael i'r disgyblion ar gyfer mis Medi. Bydd cyflwyniad yn y Gymraeg am 5pm ac yn y Saesneg am 6pm.

**Opsiynau Blwyddyn 8**
Cynhelir Noson Opsiynau i rieni a disgyblion Bl8 yn rhithiol (Teams) ar **11 Mawrth** ble byddwn yn trafod y dewisiadau sydd ar gael i'r disgyblion ar gyfer mis Medi. Hefyd, yn ddilyniant o'r cyfarfod rhithiol ar y nos Lun, cynhelir Noson Cyflwyniadau Opsiynau (5.30PM - 7.30PM) ar **12 Mawrth** yn fyw yn yr ysgol, lle byddwch yn gallu ymweld ag adrannau a derbyn cyflwyniad am bynciau gwahanol sydd yn cael ei gynnig yng nghwricwlwm BL9. Yn dilyn hyn, cynhelir Noson Rhieni Bl8 yn rhithiol (School Cloud) ar **19 Mawrth**. Bydd hon yn noson rithiol i dderbyn adborth am gynnydd academaidd eich plentyn y flwyddyn academaidd hon.

**Brechiadau HPV**
Cynhelir Sesiwn Brechiad HPV ar **6 Mawrth** i BAWB ym mlwyddyn 8. Os ydych yn dymuno bod eich plentyn yn ei dderbyn rhowch eich caniatâd drwy ddilyn y ddolen yn y llythyr a anfonwyd drwy Classcharts**.** HEDDIW yw'r diwrnod olaf i chi allu rhoi eich caniatâd. Mae'n bwysig eich bod yn gadael i'ch plentyn wybod eich bod wedi / ddim yn rhoi caniatâd i hwyluso trefniadau amserlen y brechiadau.

**Cwrs Sgïo – Zell am See, hanner tymor Chwefror, 2025 – Bl 9-12**
Rydym ni wedi trefnu cyflwyniad Teams ar gyfer unrhyw ddisgyblion (Bl 9-12) sy'n dymuno ymuno â'n Cwrs Sgïo ym mis Chwefror 2025, ddydd Mercher, **13 Mawrth** am 5.30pm (cyfrwng Cymraeg) a 6pm (cyfrwng Saesneg). Byddwn yn rhannu gwybodaeth am y daith, gan gynnwys manylion am sut i sicrhau lle a'n cynllun talu. Hoffwn bwysleisio bod y daith ar agor yn y lle cyntaf i ddisgyblion sydd ar hyn o bryd yn Bl 9-12, a bydd yn agor i ddisgyblion o flynyddoedd eraill os bydd digon o le ar gael.


Rhai o'n disgyblion ar y llethrau

**Digwyddiadau y tymor hwn**
Hoffwn eich atgoffa o ychydig o ddigwyddiadau sydd i ddod yn ystod y tymor hwn

| | |
|---|---|
| 1 Mawrth | Eisteddfod Ysgol – Gerddi Soffia |
| 1-3 Mawrth | Taith Liddington |
| 4 Mawrth | Noson Opsiynau Blwyddyn 9 (Teams) |
| 4-7 Mawrth | Ffug-arholiadau Blwyddyn 10 |
| 6 Mawrth | Brechlyn Bl8 HPV |
| 7 Mawrth | Canlyniadau modylau arholiadau Ionawr Blwyddyn 11 |
| 10 Mawrth | Dechrau Mis Ramadan – pob dymuniad da i'n disgyblion sy'n dechrau Saum |
| 11 Mawrth | Noson Opsiynau Blwyddyn 8 (Teams) |
| 12 Mawrth | Noson Cyflwyniadau Opsiynau Blwyddyn 8 – yn Ysgol Glantaf |
| 14 Mawrth | Rhagbrofion Eisteddfod Sir Uwchradd – Canolfan Celfyddydau y Memo, Y Bari |
| 15 Mawrth | Eisteddfod Sir Uwchradd - Canolfan Celfyddydau y Memo, Y Bari |
| 15 Mawrth | Noson Rasys Ceffylau - yn Neuadd Ysgol Glantaf (er budd y daith i Dde'r Affrig) |
| 18-19 Mawrth | Arholiad Celf TGAU |
| 18-22 Mawrth | Twrnament 7 bob ochr Parc Rosslyn |
| 19 Mawrth | Noson Rhieni Blwyddyn 8 (School Cloud) |
| 22 Mawrth | Adroddiadau Interim Bl 7-13 |
| 22 Mawrth | Diwedd Tymor y Pasg |
| 25 Mawrth | Camp Pasg Chwaraeon Glantaf (er budd y daith i Dde'r Affrig) |
| 8 Ebrill | Dechrau Tymor y Sulgwyn (wythnos 2) |

**I gloi**
Llongyfarchiadau gwresog i Tomi Roberts-Jones o flwyddyn 13 sydd wedi derbyn enwebiad yng Ngwobrau Dewi Sant am ei ddewrder a'i lwyddiant yng Ngemau'r Gymanwlad llynedd. Pob lwc i ti Tomi! Hefyd, pob lwc i Dîm Pêl-rwyd dan 18 yr ysgol fydd yn cynrychioli Caerdydd ym mhencampwriaeth Cymru ddydd Sadwrn yng nghystadleuaeth y 'President's Cup'.



Myfyrwyr Lletygarwch ac Arlwyo Bl 11 yn arddangos eu gwaith ymarferol

Yn gywir,

Owain Siôn Williams
Pennaeth Cynorthwyol
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf